



# YN ÔL TRAED JMW TURNER

Pan fyddwch yn dilyn y daith gerdded hon, gofalwch eich bod wedi paratoi yn addas trwy ddilyn y Côd Cefn Gwlad a fydd yn eich helpu i ymweld yn ddiogel a chadw ein hamgylchedd a'n cymunedau mewn cof. I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.naturalresources.wales/countrysidecode](http://www.naturalresources.wales/countrysidecode)



**CALON DDRAMATIG  
CYMRU**

Castell-nedd Port Talbot

[dramaticheart.wales](http://dramaticheart.wales)



## LLWYBR TURNER

**Man cychwyn:** Maes Parcio Rhaeadrau Aberdulais neu Raeadr Melin-cwrt (Dilynwch yr arwyddion i'r ddau atyniad o'r A465. Peidiwch â defnyddio system Llywio Lloeren)

**Hyd:** 5 milltir

**Amser:** 2 - 3 awr

**Parcio:** Maes parcio am ddim yn y ddau fan cychwyn (codir tâl mynediad i Rhaeadrau Aberdulais)


**Bwyd a Lluniaeth:** Mae nifer o dafarnau a chaffis yn Aberdulais a Resolfen. Mae cyfleusterau toiledau cyhoeddus ym Maes Parcio'r Gamlas, Resolfen (ger yr A465) ac mae cyfleusterau toiled i ymwelwyr sy'n talu yn Rhaeadrau Aberdulais.

*Cyn eich ymweliad, gwiriwch ddiwrnodau ac amseroedd agor safle Rhaeadrau Aberdulais yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan fod oriau gweithredu'r atyniad hwn wedi newid oherwydd pandemig Covid-19.*

Ymwelodd Joseph Mallord William Turner â De Cymru yn 1795 gan gofnodi diwydiant a rhaeadrau rhyfeddol yr ardal mewn nifer o frasluniau. Mae natur wedi hawlio'r dirwedd ddiwydiannol yn ôl a gallwch weld drosoch eich hun yr hyn a ysbrydolodd Turner i ddarlunio rhai o olygfeydd mwyaf dramatig De Cymru.

1





# Y LLWYBR

Mae Llwybr Turner yn gyfle i ymweld â dwy raeadr hardd a ddarluniwyd gan Joseph Turner. Gallwch ddewis dechrau'r daith naill ai yn Rhaeadr Melin-cwrt neu yng Ngwaith Tun a Rhaeadr Aberdulais, safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (codir tâl mynediad) lle byddwch hefyd yn gallu dysgu am hanes diwydiannol ardal hyfryd Bro Nedd.

Gan ddechrau yn Rhaeadrau Aberdulais, archwiliwch y rhaeadrau gwych a dysgu am hanes y safle gwaith tun pwysig hwn. Yn yr ystafell ddosbarth, fe welwch gopi o ddarlun Turner o Felin Aberdulais a gynhyrchwyd ganddo yn 1796/1797.

I fynd ymlaen i'r pwynt nesaf **1**, gadewch y safle a chroesi'r ffordd. Trowch i'r dde a chroesi Afon Dulais cyn troi i ymuno â'r llwybr troed sy'n dilyn yr afon o dan yr A465 i'r man lle mae Afon Dulais yn ymuno ag Afon Nedd. Dilynwch y llwybr troed a chroesi'r gamlas. Trowch i'r chwith a chroesi'r afon ar Heol Dulais Fach (bydd canolfan Calor Gas ar eich ochr dde). Trowch i'r chwith i ymuno â llwybr halio'r Gamlas a dilynwch y

llwybr hwn am ryw 4 milltir. Cofiwch gadw eich llygaid ar agor am ymwelwyr gwyllt â'r gamlas, fel y Crëyr Glas, y cadno ac amrywiaeth o adar bach.

Wrth i chi nesáu at ddiwedd y llwybr, trowch i'r dde i groesi Afon Nedd a dilyn y llwybr troed i faes parcio Rhaeadr Melin-cwrt. Gallwch gael seibiant fan hyn neu fynd yn syth ymlaen ar hyd y llwybr byr i gyrraedd Rhaeadr Melin-cwrt **2**.

Pan fyddwch yn barod i fynd yn ôl, gallwch ddilyn yr un llwybr yn ôl ar hyd y gamlas neu ddal bws fydd yn mynd â chi yn ôl ar hyd y B4434. Gallwch ddisgyn o'r bws ym mhentref Tonna i ailymuno â'r llwybr a dychwelyd i Aberdulais. Mae'n bosibl dilyn y llwybr ar feic pedalau hefyd ar hyd y llwybr halio.



# MANNAU DIDDOROL

## 1 Gwaith Tun a Rhaeadr Aberdulais, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Yn llecyn prydferth i ddysgu am hanes Bro Nedd ac yn gartref olwyn ddŵr fwyaf y Deyrnas Unedig sy'n cynhyrchu trydan, roedd gan rhaeadr Aberdulais ran bwysig yn y chwyldro diwydiannol.

Gyda chyflwyniad am fecanwaith crai diwydiant cynnar yn ogystal ag arddangosfa 'dyn tun' byddwch yn dysgu popeth am dreftadaeth ddiwydiannol bwysig y safle hwn sydd dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r rhaeadr yn ysblennydd ac mae ei gweld hi'n cynhyrchu ynni 'gwyrdd' yn creu hyd yn oed mwy o argraff.

Mae Gwaith Tun a Rhaeadr Aberdulais yn rhaeadr gwbl hygyrch a hawdd ei gweld ac mae liff ar gael i gludo ymwelwyr uwchben y rhaeadr.

## 2 Rhaeadr Melin-cwrt

Mae Rhaeadr drawiadol Melin-cwrt yn 80 troedfedd (24m) o uchder, ryw fymryn yn unig yn llai na'r rhaeadr dalaf yng Nghymru (90 troedfedd). Mae'n rhan o warchodfa dawel sy'n ymestyn dros 12 erw a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Er bod y llwybr yn gymharol anodd, mae'n hawdd ei ddilyn gan ei fod yn rhedeg gydag ochr yr afon.

Cafodd braslun Turner ym Melin-cwrt, un arall a luniwyd yn 1795, ei gwblhau yn rhannol â dyfrlliwiau. Fe'i disgrifir fel 'enghraifft feistrolgar o ddarlunio dŵr sy'n symud'. Roedd hyn yn y cyfnod pan oedd yr artist yn paratoi ar gyfer ei beintiad olew cyntaf mewn arddangosfa.

Mae'r rhaeadr a'r warchodfa yn nodweddion naturiol mawreddog ynghudd ym Mro Nedd ac yn rhoi cyfle i garedigion natur, ffotograffwyr ac arlunwyr ddilyn yn ôl traed Turner ac ail-greu celf yn eu ffordd eu hunain.

